Adferiad dan arweiniad dinasyddion: gweithio'n well gyda'n gilydd 2

ADRODDIAD O SEMINAR



Adferiad dan Arweiniad inasyddion: **gweithio'n well gyda'n gilydd 2**

Mae'r pandemig COVID-19 wedi creu sawl her i ni i gyd, ond yr hyn sydd wedi bod yn glir yw ein bod, trwy weithio gyda'n gilydd, yn cyflawni cymaint mwy ac yn nodi cyfleoedd.

Mae'r ail seminar rithwir hon yn dilyn y cyntaf ar 20 Ionawr 2021, a archwiliodd yr hyn sydd wedi gweithio, a sut y gallwn gynnal momentwm a chydweithio'n well yn y dyfodol i sicrhau bod dinasyddion Sir Benfro wrth galon yr adferiad ôl-COVID.

Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gweithio'n well gyda'n gilydd, a oedd yn dod o dan bedwar maes allweddol. Bydd y seminar hon yn archwilio dau o'r rhain yn fwy dwfn, gyda sesiwn bellach ym mis Mawrth i archwilio'r ddau arall.

Mae'r seminar ar gyfer cynghorau dinas, tref a chymuned ac wedi'i hwyluso gan Gyngor Sir Penfro, gan weithio gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a PLANED.

Dyddiad:
Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021

Amser:
6.30-8pm

A oes cost?
Nac oes

I bwy mae e?

Unrhyw un o gyngor dinas, tref neu gymuned yn Sir Benfro.

Sut wyf yn cofrestru?

Cliciwch ar **y ddolen hon** i gofrestru ar gyfer y seminar. Ar ôl cofrestru, byddwch yn derbyn e-bost cadarnhau yn cynnwys y cyfarwyddiadau ar gyfer ymuno â'r cyfarfod.

Daeth 38 o bobl i'r seminar:

- 25 cynrychiolydd o gynghorau dinas, tref a chymuned (mae tri ohonynt yn gynghorwyr Sir Penfro hefyd)
    - Cynrychiolwyd pum cyngor dinas a thref (Abergwaun a Gwdig, Hwlffordd, Arberth, Trefdraeth a Thyddewi)
    - Cynrychiolwyd 15 cyngor cymuned (Crymych, Freystrop, Jeffreyston, Cilgeti / Begeli, Llandyfái, Llanddewi Felffre, Llanrhian, Maenclochog, Maenorbŷr, Marloes a Sain Ffrêd, Martletwy, Saundersfoot, Solfach, Tredeml, a Tiers Cross)
- Pum swyddog o Gyngor Sir Penfro (y Cyngor Sir)
- Pedwar swyddog o Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)
- Tri swyddog o PLANED
- Un swyddog o Gyda'n Gilydd dros Newid

Y Cyflwyniadau

Agorwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Sir Phil Baker, a oedd hefyd yn cadeirio'r cyfarfod. Y Cynghorydd Baker yw'r Aelod o'r Cabinet dros Isadeiledd, Trwyddedu a Digwyddiadau Mawr, ac mae hefyd yn arwain ar gyswllt â chynghorau tref a chymuned. Cyfeiriodd y Cynghorydd Baker at y seminar flaenorol a gynhaliwyd fis

Ionawr. Roedd yr adborth o'r seminar honno yn rhannu'n bedwar categori bras: byddai dau ohonynt yn cael eu trafod yn fwy manwl yn y seminar hon, a'r ddau arall ym mis Mawrth.

Trafododd Antony Topazio, Swyddog Cyfathrebu gyda'r Cyngor Sir, y materion a godwyd yn y seminar ym mis Ionawr yn ymwneud â **chyfathrebu a rhannu gwybodaeth** a rhannodd ychydig o syniadau am y pynciau hyn ar gyfer y dyfodol.

Yna, adolygodd Iwan Thomas, Prif Weithredwr PLANED, y farn a fynegwyd ynghylch **cydweithredu a rhannu adnoddau** yn seminar mis Ionawr, gan gyfeirio hefyd at y map rhyngweithiol o gynghorau dinas, tref a chymuned ledled Sir Benfro a gafodd ei lansio'n ddiweddar gan PLANED.

Rhoddodd Lee Hind (Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Cynllun Bancio Amser Digidol, PAVS) arddangosiad o blatfform Cysylltu Sir Benfro (https://connectpembrokeshire.org.uk/) a'r potensial sydd ganddo i helpu i wella cyfathrebu a chydweithredu rhwng sefydliadau ac ymysg sefydliadau.

Sesiwn grwpiau trafod

Oherwydd y nifer o bobl oedd yn y seminar, rhannwyd y grŵp yn bump o grwpiau llai i drafod y ddwy thema a gyflwynwyd gan Antony ac Iwan:

- Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- Cydweithredu a rhannu adnoddau

Ceir nodiadau adborth isod gan bob grŵp.

Grŵp 1

- Trafodwyd y mater o gyfathrebu wedi'i dargedu a chyfathrebu heb ei dargedu, o daflenni i bob aelwyd i gyfathrebu digidol. Y teimlad cyffredinol oedd bod lle i'r ddau, ond nad oedd yr un dull yn berffaith – mae cyfyngiadau i bob un. Y gwirionedd yw bod angen amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.
- Mae llawer o bobl nad oes ganddynt, ac ni fydd gan rhai pobl fyth, gyswllt digidol. Mae angen cynorthwyo pobl lle bynnag y bo hynny'n bosibl.
- Gall arolygon fod yn ddull cyfathrebu defnyddiol, a gallant helpu i dargedu cyfathrebu i'r rhai hynny sydd â diddordeb arbennig yn rhywbeth.
- Mae'n rhaid bod yn wyliadwrus rhag ymgysylltu â'r 'lleiafrif blin'.
- Mae amser/gallu cynghorau tref a chymuned yn gyfyngedig (gwirfoddolwyr yw pawb ac eithrio'r clerc), a bydd hyn yn effeithio ar eu gallu i gyfathrebu'n dda gyda'u cymunedau. Nid gweithwyr cyfathrebu proffesiynol yw'r rhan fwyaf. A ellir darparu cymorth?
- Mae diffyg cysylltiad rhwng cymunedau yn rhwystr, ac maent yn aml yn teimlo fel eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain. Mae diffyg cydlyniant.
- Arferai fod diffyg cyfathrebu rhwng y cynghorau dinas, tref a chymuned a'r Cyngor Sir / eraill.
- Mae COVID wedi cynorthwyo i feithrin cydberthnasau, yn arbennig rhai anffurfiol, e.e. drwy'r Rhwydwaith Neuaddau Cymuned gyda PAVS a PLANED.

- Mae tri edefyn allweddol, o bosibl, i gyfathrebu gwell:
    - Anffurfiol
    - Swyddogion cyswllt (roedd teimlad fod hyn o gymorth mawr yn y gorffennol)
    - Un Llais Cymru (defnyddiol iawn, yn enwedig o ran cyngor a chymorth)
- Byddai ychydig o gymorth o ran hwyluso i rannu syniadau yn ddefnyddiol.

Grŵp 2

- Egluro termau – bod yn glir o ran yr hyn rydym yn ceisio'i gyflawni
    - Sut rydym yn cyfathrebu, trafod, cysylltu â'n gilydd
- Mae angen i ni i gyd fod yn defnyddio'r un llwyfan
    - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, dinasyddion, grwpiau cymuned ac ati
- Collwyd cyfle yn y cyflwyniad i gyfeirio at gyfranogiad Un Llais Cymru yn y gwaith o lunio Siarter Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned gyda'r Cyngor Sir – nid yw erioed wedi cael ei gweithredu'n llawn – tybed pa mor berthnasol yw'r ddogfen o ganlyniad i'r pandemig
    - A yw'n rhy fiwrocrataidd o lawer?
    - Pa mor berthnasol y mae'r Cyngor Sir yn credu y gallai fod?
- Cysylltu Sir Benfro
    - Cyfyngiadau symud – mae pobl yn fwy soffistigedig a hyderus ar-lein
    - Sut rydym yn torri drwy'r holl sianelau eraill y mae pobl yn eu defnyddio
    - Gall y posibilrwydd o sianel arall fod yn llethol
    - Nid yw o ddim defnydd i bobl nad oes ganddynt ryngrwyd a dim bwriad o ddefnyddio'r rhyngrwyd
    - Llwyfan ifanc iawn
    - Gall fod yn dda i gynghorau dinas, tref a chymuned i gyfathrebu ynghylch prosiectau
    - Mae peth gwerth mewn amrywiaeth – mae llwyfan cysylltu yn offeryn mewn nifer o rai eraill
    - Mae'n edrych yn dda iawn – mae llawer na fyddant yn ei ddefnyddio, ond mae'n werth ei gadw
    - Mae'n caniatáu ar gyfer llawer o is-bwyllgorau a gweithgorau gwahanol
- Llawer o wahanol bethau yn cael eu hawgrymu
    - Un Llais Cymru ar gael eisoes
    - Nid yw Un Llais Cymru yn cwmpasu Sir Benfro i gyd – mae llawer o gynghorau dinas, tref a chymuned nad ydynt yn aelodau
- Mae trafodaethau/cyfarfodydd ac ati oll yn offerynau cyfathrebu hefyd – gall y rhain fod wyneb yn wyneb yn ogystal â llwyfannau ar-lein
- Cefnogi fframwaith cyffredin – Fframwaith Cyfathrebu a Chyfranogi
    - Aeth yn angof
    - A fyddai'n bosibl edrych arno eto?
    - Nid oes angen ailddyfeisio'r olwyn
    - Rhwystredigaeth gyda chyfathrebu mewn rhai rhannau o'r Cyngor Sir
    - Comisiynwyd adolygiad allanol – cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu
    - Darlledwyd/cyfathrebwyd at, yn hytrach na cyfathrebwyd gyda
- A oes sefydliadau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yn rhan o'r sgwrs hon?
    - Mae angen edrych ar wella cydberthnasau
    - Nid ydym yn gweithio'n dda gyda'n gilydd

- Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd – ni ddylai'r Cyngor Sir arwain ar hyn
    - Ymdrech ar y cyd
    - Newyddlen reolaidd y mae'r cyngor yn ei rhoi at ei gilydd – mae rhai yn weithgar iawn, nid oes diddordeb gan eraill yn yr hyn a ddaw gan y Cyngor Sir
    - Gallai fod yn gyfle i'r Cyngor Sir lunio newyddlen penawdau – beth sydd wedi digwydd a beth sydd ar y gweill
    - Nid oes fforwm/rhwydwaith gweithredol yn Hwlffordd
    - A allen ni gael rhwydwaith o fforymau wedi'u cysylltu â thimau trefi o dan ambarél y Cyngor Sir
- Pencadlys ymgysylltu – beth yw hyn?

Grŵp 3

Talu am syniadau. Rolau/systemau cymorth a gaiff eu cyllido.

Roedd y berthynas rhwng y Cyngor Sir a'r cynghorau Dinas, tref a chymuned yn thema gref yn y grŵp hwn. Y prif bwyntiau oedd sut yr arferai pethau fod ond cefais y teimlad nad oedd hyn yn broblem, gan fod y dulliau blaenorol, o bosibl, yn fwy cydweithredol, bod colled ar eu hôl, ac y gellir eu harchwilio eto. Soniodd yr aelodau am sut roedd swyddogion cyswllt blaenorol yn ddefnyddiol i'w cyngor.

Dywedodd rhai wrthym nad yw cynghorwyr sir yn dod i'w cyfarfodydd er gwaethaf gwahoddiadau ond dywedodd eraill fod eu cynghorydd sir bob amser yn dod a helpu. Tynnwyd sylw at y cwestiwn ynghylch eu dyletswyddau a'u gofynion. Tynnwyd sylw hefyd at y pryder bod cynghorwyr sir, weithiau, yn aelodau wleidyddol bleidiol ac efallai nad y lefel hon o lywodraeth yw'r lle i hyn.

Clywsom am un gymuned oedd angen rôl debyg i swyddog cyswllt yn ddiweddar, ac a gafodd un, a bu'n ddefnyddiol iawn. Roedd y grŵp fel pe bai'n cytuno bod rôl fel hyn yn ymwneud â chysylltu a rhannu gwybodaeth yn ôl a blaen yn amserol.

Trafodwyd pa mor anodd yw clywed yn ôl gan y Cyngor Sir ac nid oes unrhyw fodd o gysylltu'n uniongyrchol â'r unigolyn/arbenigwr sydd ei angen arnoch. Awgrymwyd y syniad o gyfeiriadur wedi'i rannu – gallai hyn hefyd gynnwys partneriaid eraill megis aelodau o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Trafodwyd hefyd fod yn ymwybodol o bwy i gysylltu â hwy, e.e. pwy yw'r sawl gorau i gysylltu ag ef neu'r lle gorau i fynd iddo ynghylch materion penodol?

Cyfathrebu (er mwyn cydweithredu a rhannu)

Eto, codwyd y mater o ddiffyg ymatebion gan y Cyngor Sir. Ond cydnabuwyd hefyd bod aelodau o dîm y Cyngor Sir yn brysur iawn a bod y rhai sydd yn cynorthwyo ac sy'n gallu cynorthwyo yn cael eu gwerthfawrogi.

Trafododd y grŵp ffordd o wybod pa sgiliau a chryfderau y gall cynghorau dinas, tref a chymuned eraill eu cynnig a'u rhannu. Codwyd y syniad o gyfeiriadur eto fel ffordd o rymuso ein gilydd a throi at ein gilydd yn gyntaf. Mae'r clerc yn ein grŵp yn glerc i wahanol gymunedau ac esboniodd fod clystyru a gweithio ar draws ffiniau yn bosibl os ydych yn drefnus.

Partneriaethau

Daeth Un Llais Cymru yn rhan o'r drafodaeth; nid yw pawb a oedd yn bresennol yn aelodau. Dywedodd un ei fod wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer materion cyfreithiol yn y gorffennol, ond nid oedd angen bod yn aelod bellach, ond dywedodd y clerc sy'n aelod wrthym ei fod yn ddefnyddiol iawn (roedd ein hamser yn mynd yn brin erbyn hyn). Holais hefyd am Gymdeithas y Clercod er mwyn ehangu ar sylw, a dywedodd ein clerc wrthym fod y rhwydwaith hwn yn ddefnyddiol.

Drwy gydol y trafodaethau, soniwyd yr hoffai cynghorau dinas, tref a chymuned gydnabyddiaeth a pharch i'w rolau. A byddai clercod, yn eu tro, yn hoffi mwy o barch wrth ddod at y Cyngor Sir am gymorth. Codwyd y mater o rannu sgiliau eto a thynnwyd sylw at PAVS fel partner ar gyfer cysylltu.

Grŵp 4

Cyfathrebu

- Nodwyd bod cyflymder band eang araf yn rhwystr i gysylltiad digidol – mae gan rai cynghorwyr, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, gyswllt band eang ansefydlog ac felly'n methu rhannau o gyfarfodydd. Roedd teimlad bod cyflymder cyswllt band eang yn fwy o broblem na sgiliau digidol y cynghorwyr.
- Y flaenoriaeth gyntaf yw sicrhau bod gan gynghorwyr fynediad at ohebiaeth/gwybodaeth.

Ffocws agenda cynghorau dinas, tref a chymuned gyda'r Cyngor Sir (cydweithredu yn ogystal â chyfathrebu)

- Trafodwyd y syniad o aelod penodedig o'r Cabinet i hyrwyddo democratiaeth leol. Er enghraifft, mae Solfach a Thyddewi eisoes yn cysylltu'n agos â Chyngor Cymuned Breudeth felly mae grŵp sy'n bodoli eisoes y gallai aelod o'r Cabinet gysylltu ag ef i gael barn o ardal leol. Byddai hyn hefyd yn dangos bod y Cabinet yn gwerthfawrogi llais cynghorau dinas, tref a chymuned.
- Mae potensial i'r cynghorau dinas, tref a chymuned gael strwythur sy'n adlewyrchu rhywfaint ar bortffolio'r Cabinet – hyrwyddwr addysg, tai, yr economi.
- Gallai'r Cyngor Sir fod yn fwy gweithgar o ran atgoffa'r cynghorau dinas, tref a chymuned i gyfathrebu â'i gilydd.

Creu adnodd i hyrwyddo cydweithredu

- Mae angen adnodd ymroddedig i Sir Benfro gyfan i gefnogi cynghorau dinas, tref a chymuned, i hyrwyddo arfer gorau, bod yn annibynnol, a gweithio ar faterion thematig neu ddaearyddol.
- Mae'n werth archwilio'r syniad o deulu o gynghorau – cysylltu cynghorau â chynghorau cyfagos i rannu adnoddau ac arbenigedd (ond nodwyd hefyd fod hyn o fewn cyd-destun cael grwpiau cymharol fach).
- Nodwyd bod rhai clercod yn gweithio i nifer o gynghorau a gallai hyn fod yn gymorth i greu hybiau.

Grŵp 5

- Mae pob cyngor dinas, tref a chymuned yn wahanol.

- Byddai'n wych cael cofrestr o asedau sydd gan gynghorau cymuned. Gall rhai gynhyrchu incwm o randiroedd, tir ac ati.
- Gallai cynghorau dinas, tref a chymuned rannu asedau, e.e. peiriannau lladd gwair y gellir eistedd arnynt.
- Prynu adnoddau mewn cydweithrediad, e.e. gliniaduron, taflunyddion, yn y gobaith o gael pris rhatach.
- Yswiriant – gan fod angen yswiriant ar bob cyngor dinas, tref a chymuned, gallai cais ar y cyd ar gyfer pawb arwain at bris rhatach.
- Gallai Cysylltu Sir Benfro fod o fudd fel ffordd o rannu gwybodaeth, cymharu arfer da, a datrys trafferthion tebyg.
- Holiadur drwy Cysylltu i ganfod sut mae'r gwahanol gynghorau dinas, tref a chymuned wedi defnyddio arian grant gan Gwella Sir Benfro. Rhannu adnoddau, e.e. polisïau ac ati.
- Gweithio mewn clwstwr i gefnogi ein gilydd fel clercod. Clercod amser llawn yn cynnig cymorth ac arweiniad i glercod rhan-amser lle mae angen, a gweithio gyda neuaddau cymuned a swyddogion cymunedol.

Nodiadau o'r sgwrs Zoom

Yn ystod y cyflwyniadau gan bob grŵp (uchod), cafodd rhai pynciau a sylwadau ychwanegol eu casglu yn y 'sgwrs' Zoom (*chat*) fel a ganlyn:

- Cynghorau dinas, tref a chymuned ar Facebook: edrychwch ar Gyngor Cymuned Llanrhian ar Facebook. Nid oes angen iddo fod yn ymrwymiad anferth o gwbl o ran amser ac rydym yn cael lefel dda o ymgysylltu gyda'n cymuned drwy gyfeirio a rhannu
- I gael rhagor o wybodaeth ynghylch y Fforwm Adeiladau Cymunedol, cysylltwch â liz.cook@pavs.org.uk
- Mapio asedau cymunedol ledled y sir – yn ogystal â chanfod ffyrdd o ddefnyddio asedau yn fwy effeithiol, gallai hyn fod yn ffordd dda i gynghorau dinas, tref a chymuned gydweithio i feithrin cysylltiadau … (gweler Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau)
- Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £10 miliwn i gynorthwyo mentrau cymdeithasol ac awdurdodau lleol i ddarparu prosiectau band eang yn lleol. Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau sy'n darparu datrysiadau band eang arloesol i gymunedau a rhannau o Gymru nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd at gyflymder band eang o 30Mbp (https://www.sir-benfro.gov.uk/band-eang)

Y camau nesaf

Cafodd y noswaith ei chloi gan y Cynghorydd Phil Baker, a diolchodd i bawb am eu cyfraniadau mewn seminar a oedd wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Cytunwyd y bydd y seminar nesaf ddydd Iau 25 Mawrth am 6.30pm.